| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 25 Ebrill 2018 |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | Alan Smith - Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol |
| **Teitl:** | Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2017-18 |

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

I ddangos llywodraethu da, rhaid i'r Cyngor ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd a nodir yn Fframwaith Darparu Llywodraethu Da o fewn Llywodraeth Leol (Cymru), rhifyn 2016. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS) yn cael ei baratoi yn defnyddio hunanasesiad, ac yn adrodd ar drefniadau llywodraethu a gwelliant y Cyngor ar gyfer 2017-18, ynghyd â chynnydd yn rhoi sylw i'r camau gweithredu gwella a gynhwysir yn AGS 2016-17. Mae'r AGS yn cael ei adrodd fel rhan o'r "Datganiad Cyfrifon" terfynol.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Mae'r adroddiad yn rhoi'r cyfle i'r Pwyllgor roi sylwadau ar 'ddatganiad llywodraethu blynyddol' eleni.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod y Pwyllgor yn monitro'r cynnydd a wneir ar y cynllun gweithredu o 2016-17 ac yn adolygu a chymeradwyo'r datganiad llywodraethu blynyddol drafft ar gyfer 2017-18 (Atodiad 1).

**4. Manylion yr Adroddiad**

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2017/18 yn cynnwys hunanasesiad o drefniadau llywodraethu'r Cyngor ac yn dangos meysydd gwella yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae'n tynnu sylw at unrhyw wendidau mewn cynllun gweithredu, a bydd y Pwyllgor hwn yn eu monitro i sicrhau gweithrediad y gwelliannau angenrheidiol. Mae manylion llawn yn Atodiad 1.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Er nad yw'r hunanasesiad 'datganiad llywodraethu blynyddol' yn cyfrannu'n uniongyrchol at Flaenoriaethau Corfforaethol, mae'n darparu asesiad a sicrwydd ar ddarpariaeth y Cynllun Corfforaethol, perfformiad gweithredol ac ariannol y Cyngor, trefniadau llywodraethu, ymgysylltu â'r gymuned ac ati sydd i gyd yn cael eu cyfeirio tuag at gyflawni'r Blaenoriaethau Corfforaethol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**

Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Pe na bai'r Cynllun Gwella Llywodraethu yn cael ei weithredu, byddai gwendidau yn aros yn nhrefn lywodraethol y Cyngor, a allai arwain at:

- adroddiadau rheoleiddiol niweidiol;
- defnydd gwael o arian cyhoeddus;
- methiant i wella meysydd corfforaethol a meysydd gwasanaeth allweddol;
- colli hyder budd-ddeiliaid; ac
- effaith andwyol ar enw da'r Cyngor.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.